**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
**25 IONAWR 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 25 Ionawr 2023.

**YN BRESENNOL:**
Aelodau cyfetholedig: Sally Ellis (Cadeirydd), Parchedig Brian Harvey ac Allan Rainford
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Glyn Banks, Allan Marshall, Andrew Parkhurst a Linda Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiad a Chymunedau Cadarn), Y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol), Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Archwiliad Mewnol, Perfformiad a Risg, Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Cyllid Strategol, Prif Gyfrifydd a Phrif Archwilydd.

Swyddfa Archwilio Cymru: Matthew Edwards a Carwyn Rees

Cofnod rhif 49
Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) a Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon.

Cofnod rhif 50
Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid a Matthew Harris (Pennaeth yr Awdurdod Safonau Cwynion)

## 46. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim

## 47. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Tachwedd 2022, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Linda Thomas a Bernie Attridge.

Cofnod 37: Gwaredu Asedau a Derbyniadau Cyfalaf a gynhyrchwyd yn 2021/22 - Gofynnodd Y Cynghorydd Andrew Parkhurst am eglurhad ar y gwahaniaeth rhwng ffigyrau gwerthiant asedau wedi'u hatodi i'r adroddiad o'i gymharu â'r grynodeb llawn a ddosbarthwyd wedi hynny a oedd yn cynnwys y rheiny wedi'u tynnu o'r ddogfen wreiddiol oherwydd sensitifrwydd masnachol. Gofynnodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) i'r Cynghorydd Parkhurst ei e-bostio ar wahân fel bod ymateb yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor. [1]

Cofnod 44: Maes Gwern - cyfeiriodd y Cynghorydd Parkhurst at swyddogion yn cytuno i ystyried y ffordd orau i adrodd ar dderbyniadau cyfalaf

---

[1] Mae'r grynodeb llawn o'r holl asedau yn adlewyrchiad o gyfanswm y gwerthiant o £2,028,000 ar gyfer 2019/20, £1,977,000 ar gyfer 2020/21 a £1,935,000 ar gyfer 2021/22

heb dorri cyfrinachedd masnachol. Cynghorodd y Prif Weithredwr fod swyddogion yn adrodd yn ôl ar hynny mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir.

## 48. DATGANIAD CYFRIFON 2021/22

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol fersiwn derfynol Datganiad Cyfrifon 2021/22 gan ymgorffori newidiadau y cytunwyd arnynt gydag Archwilio Cymru yn ystod yr archwiliad. Atgoffodd y Pwyllgor, fel yr adroddwyd yn y cyfarfod blaenorol, bod y dyddiad cau statudol a gafodd ei ymestyn ar gyfer cyhoeddi'r cyfrifon terfynol wedi'u harchwilio yn cael ei ymestyn ymhellach i 31 Ionawr 2023, yn bennaf oherwydd problem cyfrifeg technegol ar asedau isadeiledd.

Wrth grynhoi adroddiad Archwilio Cymru dyma Matthew Edwards yn diolch i'r Rheolwr Cyllid Corfforaethol, y Rheolwr Cyllid Strategol a'r tîm am eu cefnogaeth wrth weithio'n effeithiol trwy'r problemau sy'n codi yn ystod yr archwiliad oedd yn adlewyrchiad o berthynas waith bositif. Tynnodd sylw at y lefel o fateroliaeth a gafodd ei bennu ar gyfer yr archwiliad a'r meysydd o ddiddordeb cyffredinol lle mae lefelau is yn berthnasol. Cadarnhaodd fod y cyfrifon wedi cael eu paratoi i safon dda a bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyflwyno barn archwilio ddiamod. Darparodd eglurhad ar ddau broblem swyddogol o'r archwiliad (Dangosyn 2) a oedd yn gyson gydag awdurdodau eraill a chadarnhawyd fod y rhain yn ddiwygiadau cyfrifeg technegol a oedd wedi cael eu datrys yn foddhaol a ddim yn cael effaith ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor.

Wrth adleisio'r teyrnged a delir i swyddogion y Cyngor a chydweithwyr o Archwilio Cymru, croesawodd y Cadeirydd barhad i'r ymrwymiad bositif rhwng y ddau sefydliad i fynd i'r afael â'r problemau a nodir.

Roedd Allan Rainford yn cydnabod y cymhlethdod ynghlwm â llunio'r cyfrifon. Wrth ymateb i gwestiwn ar Nodyn 18 fe ddarparodd y Rheolwr Cyllid Strategol eglurhad ar gynnwys y trosglwyddiadau rhwng y Cyngor a phartïon perthnasol o fewn y cyfrifon. Ar gwestiynau pellach fe gadarnhaodd Matthew Edwards nad oedd ganddo bryderon a bod Sir y Fflint yn un o'r mwyafrif o gynghorau ar draws Cymru oedd yn disgwyl cymeradwyo eu cyfrifon o fewn y dyddiad cau statudol a ddiwygiwyd. Gyda threfniadau gwerth am arian, nodwyd fod y Crynodeb Archwilio Blynyddol yn cael ei rannu mewn cyfarfod i ddod.

Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst os fyddai modd rhannu'r gofrestr asedau gyda'r Pwyllgor. Cytunodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y byddai hynny'n cael ei ddarparu ar yr amod ei fod yn cael ei gadw'n gwbl gyfrinachol oherwydd sensitifrwydd masnachol.[2] Yn ôl cais i rannu'r gofrestr o gysylltiadau ar gyfer uwch swyddogion, cynghorodd (er bod cofrestr yr Aelodau yn ddogfen gyhoeddus) nad oedd swyddogion yn destun cofrestr gorfodol ac felly

---

[2] Cafodd fersiwn heb fod yn gyfrinachol o'r gofrestr asedau ei rhannu wedi hynny gyda'r Pwyllgor. Gweler gyfeiriad o dan cofnod 61 o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 22/03/23.

byddai angen rhannu'r wybodaeth ar sail wirfoddol a gyda rheswm da oherwydd y wybodaeth bersonol ynghlwm.

Dywedodd y Cynghorydd Parkhurst mai'r rheswm dros wneud y cais oedd i sicrhau'r Pwyllgor fod unrhyw wrthdaro buddiannau posib yn cael ei reoli'n gywir a dywedodd fod y nodiadau i'r datganiadau ariannol craidd ddim yn adlewyrchu'r natur wirfoddol o gofrestr diddordebau'r swyddog.

Cynghorodd y Prif Swyddog fod yna ddim gofyniad i'r trefniant gael ei nodi yn y cyfrifon. Eglurodd mai cyfrifoldeb y swyddogion unigol oedd rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau a chyfeiriodd at y Cod Ymddygiad a oedd yn destun adolygiad rheolaidd gan y Pwyllgor Safonau. Awgrymodd fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn adroddiad sicrwydd gan y swyddogion ar sut y mae achosion yn cael eu rheoli fel ffordd ymlaen mwy priodol.

Dywedodd y Cynghorydd Glyn Banks ei fod yn cefnogi cais y Cynghorydd Parkhurst. Dyma'r Cynghorydd Bernie Attridge yn ymateb i'w gwestiwn ynglŷn â'r incwm sy'n cael ei greu o gostau casglu dŵr a charthffosiaeth am ei fod wedi cael ei godi yn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Thai.

Pan ofynnodd y Cynghorydd Parkhurst am farn Matthew Edwards fe ddywedodd nad oedd yn ymwybodol o'r trefniadau penodol ar draws Cymru a'i fod yn fater y dymunai swyddogion edrych i mewn iddo. Wrth ddarparu cyd-destun ar archwilio'r cyfrifon fe eglurodd y dull a gymerwyd gan Archwilio Cymru o ran datgelu archwiliadau, i roi sicrwydd i'r Pwyllgor.

Wrth ymateb i awgrym y Prif Swyddog, cynigodd y Cadeirydd fod adroddiad sicrwydd manwl yn cael ei rannu mewn cyfarfod yn y dyfodol a fyddai'n cynnwys dull y Cyngor ar reoli diddordebau posib swyddogion, gydag enghreifftiau pan yn bosib. Awgrymodd fod yr adroddiad hefyd yn gallu cynnwys enghreifftiau o arfer da mewn awdurdodau eraill yng Nghymru.

Meddai'r Prif Swyddog y byddai'n bosib holi'r swyddogion sydd wedi cwblhau'r gofrestr o ddiddordebau i weld os fyddan nhw'n fodlon rhannu eu gwybodaeth ar sail gwirfoddol.

Croesawyd y camau gweithredu arfaethedig gan y Cynghorydd Parkhurst a ddangosodd ei werthfawrogiad i bawb am eu cyfraniad.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Attridge a'r Parch Brian Harvey. Cafodd yr argymhelliad ychwanegol ei gyflwyno gan y Cadeirydd a'i gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Attridge a Marshall.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo fersiwn terfynol Datganiad Cyfrifon 2021/22;

(b) Nodi adroddiad Archwilio Cymru 'Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol 2021/22 - Cyngor Sir y Fflint';

(c) Cymeradwyo'r Llythyr Sylwadau;

(d) Bod adroddiad sicrwydd manwl yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor ynglŷn â threfniadau yn eu lle i reoli gwrthdaro buddiannau posib gan uwch swyddogion; a

(e) Bod cais yn cael ei wneud i uwch swyddogion sydd wedi gwneud datganiadau o'r fath i fynegi os ydyn nhw'n fodlon rhannu'r wybodaeth hynny gyda'r Pwyllgor.

## 49. STRATEGAETH NEWID HINSAWDD

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad ar y cynnydd gyda'r Strategaeth Newid Hinsawdd sydd wedi cael ei fabwysiadu gan y Cabinet yn Chwefror 2022. Roedd y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd yn amlinellu'r cynnydd wrth greu Cyngor carbon sero net erbyn 2030 ac wedi'i rannu yn themâu allweddol. Yn ogystal â phenodi swyddog profiadol, byddai sefydlu Pwyllgor Newid Hinsawdd (o'r cyn Fwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd) yn helpu i fewnosod newid hinsawdd ar draws y sefydliad.

Cyflwynwyd y Pwyllgor i Alex Ellis, y Rheolwr Rhaglen Lleihau Carbon a Newid Hinsawdd, a wnaeth cyflwyniad yn cynnwys:

- Cyd-destun
- Cyflawniadau hyd yma
- Datblygiad y Strategaeth - llinell sylfaen ac ymrwymiad
- Cynllun Gweithredu Di-garbon Net
- Adnodd Staff Presennol
- Strwythur Llywodraethu
- Llinell Amser hyd at 2030
- Adroddiad Cynnydd 2021/22
- Argymhellion
- Blaenoriaethau ar gyfer 2023-24

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Parch Brian Harvey, siaradodd y Rheolwr Rhaglen am yr ymwybyddiaeth cyhoeddus cynyddol o'r problemau ymysg pobl ifanc a'r cynlluniau i ymrwymo ymhellach. Cyfeiriodd y Prif Swyddog at weithio gyda phartneriaid a chyn weithdai Aelodau i hyrwyddo newid positif.

Yn dilyn cwestiwn gan Allan Rainford ar benderfyniadau buddsoddi, cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen at waith rhagweithiol i adnabod cyfleoedd ariannu yn cynnwys prosiectau ar y cyd a dewisiadau Buddsoddi i Arbed, er mwyn cyflawni buddion canolig i hirdymor. Mae cyflwyno'r hyfforddiant llythrennedd carbon i Aelodau Etholedig ac uwch reolwyr yn helpu rhanddeiliaid i ddeall y buddion o'r buddsoddiadau.

Fel Is-gadeirydd o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, fe gyfeiriodd y Cynghorydd Allan Marshall at yr arbedion â gyflawnwyd drwy reoli tymheredd gwresogi yn yr adeiladau. Mae'r Rheolwr Rhaglen yn cyfeirio at y mesurau rheoli tymheredd mewn stoc adeiladau annomestig a chadarnhaodd fod eiddo domestig y Cyngor heb eu cynnwys yn sgôp y data allyriadau carbon.

Gwnaeth y Prif Swyddog (Llywodraethu) sylwadau ar gamau gweithredu i leihau allyriadau carbon o weithgareddau caffael a oedd wedi cynyddu yn ystod 2021/22.

Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr angen am fwy o eglurhad ar y cerrig milltir yn y cynllun gweithredu i gyflawni'r nodau yn y strategaeth, a nodwyd hynny gan y Rheolwr Rhaglen. Wrth ymateb i'r pryderon am y lefel o ffocws ar gaffael, cyfeiriwyd at y fethodoleg ar adrodd ar allyriadau carbon sydd wedi cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru.

Ar ran y Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am fynychu ac am y cyflwyniad manwl.

Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi gan y Pwyllgor;

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi gwelliannau i gyfathrebu mewnol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gynnydd cadarnhaol y Cyngor wrth symud ymlaen at gyflawni ei uchelgeisiau newid hinsawdd;

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o gychwyn ymwreiddio mesurau carbon i mewn i brosesau caffael o fewn portffolio peilot y Cyngor;

(d) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r achos dros swydd ac adnoddau Buddsoddi i Arbed er mwyn cyflwyno Systemau Rheoli Adeiladau o fewn mwy o'n hadeiladau, i wella'r broses o reoli'r defnydd o ynni; a

(e) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o ymwreiddio egwyddorion newid hinsawdd drwy'r Cyngor cyfan, drwy gyflwyno hyfforddiant Llythrennedd Carbon i Aelodau Etholedig, Uwch Reolwyr a swyddogion eraill sy'n gwneud penderfyniadau allweddol.

## 50. LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER 2020-21 A CHWYNION YN ERBYN CYNGOR SIR Y FFLINT YN YSTOD HANNER CYNTAF 2022-23

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) yr adroddiad i rannu Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru oedd yn crynhoi perfformiad y Cyngor ar y cwynion a ymchwiliwyd iddynt yn 2021-22.

Cyflwynwyd y Pwyllgor i Rebecca Jones, y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid a oedd hefyd wedi'i phenodi fel Cadeirydd y Grŵp Cwynion Cymru Gyfan sydd â'r nod i rannu arfer dda ac adnabod gwelliannau wrth fynd i'r afael â chwynion. Wrth grynhoi prif adrannau'r adroddiad hwn, eglurodd fod y cynnydd mewn cwynion newydd yn erbyn y Cyngor yn ystod 2021/22 yn cyd-fynd â'r duedd genedlaethol ac yn debygol o fod oherwydd bod cwynion wedi cael eu hatal oherwydd y pandemig. Roedd y mwyafrif o'r cwynion hynny wedi'u cau oherwydd awdurdodaeth, eu bod yn gynamserol neu wedi'u cau ar ôl cael eu

hystyried i ddechrau gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae adolygiad o wybodaeth gyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o weithdrefn gwynion y Cyngor yn helpu i leihau'r nifer o gwynion a chamau gweithredu cynamserol fel bod cwynwyr yn cael gwybod am unrhyw gynnydd a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â nifer o achosion wedi'u dyblygu. Mae gwelliannau eraill yn cynnwys cynnydd da gyda'r rhaglen hyfforddiant gorfodol, cyflwyno polisi newydd ar reoli cyswllt cwsmer a sefydlu rheolau tŷ ar ymddygiad disgwyliedig ar gyfer cyswllt gyda'r Cyngor ar gyfryngau cymdeithasol. Mae crynodeb o berfformiad yn ystod yr hanner cyntaf o 2022/23 yn dynodi cynnydd bychan yn y cwynion a dderbyniwyd hyd yma a gwell ymatebion i gwynion ar draws portffolios.

Roedd Matthew Harri, Pennaeth yr Awdurdod Safonau Cwynion, wedi mynychu'r cyfarfod ac yn croesawu buddsoddiad y Cyngor mewn hyfforddiant a'i effaith ar atgyfeiriadau i'r Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a lefelau ymyrraeth yn ystod hanner cyntaf 2022/23. Cyfeiriodd at yr ymrwymiad barhaus i gefnogi rhaglen hyfforddiant y Cyngor a'r arweiniad statudol o fewn model Cymru Gyfan sydd gyda'r nod o safoni'r broses o ddelio â chwynion ledled Cymru.

Gofynnodd y Parch Brian Harvey sut y defnyddir y weithdrefn i wella gwasanaethau i gwsmeriaid. Cynghorodd swyddogion fod rhannu data perfformiad gyda swyddogion allweddol yn helpu i'w haddysgu ac i ddadansoddi tueddiadau er mwyn targedu gwelliannau, gan nodi fod natur rhai o'r cwynion y tu allan i reolaeth y Cyngor.

Croesawodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst y gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r broses o ymdrin â chwynion ac i roi cyhoeddusrwydd i weithdrefn gwynion y Cyngor. Wrth ymateb i gwestiwn ar gwynion gan Aelodau i swyddogion fe gynghorodd y Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt â Chwsmeriaid fod data perfformiad yn seiliedig ar gwynion wedi'i hadrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Cwynion Corfforaethol.

Wrth ymateb i sylwadau ar gymharu perfformiad ar draws Cymru fe ddarparodd Matthew Harris gyd-destun ar gyfran y cwynion a gafodd eu cyfeirio at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac fe groesawodd y lleihad mewn atgyfeiriadau yn Sir y Fflint ar gyfer hanner cyntaf 2022/23 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Cytunodd gyda'r pwynt a godwyd gan y Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi) fod adroddiadau diddordeb y cyhoedd yn codi proffil cyhoeddus Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a allai fod yn un o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at y cynnydd mewn cwynion cynamserol.

Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn dymuno gofyn am wybodaeth ychwanegol ar gyfer yr adroddiad nesaf i ddangos sut y mae adborth wedi helpu i adnabod newidiadau i wella gwasanaethau. Wrth ymateb i awgrym pellach fe gynghorodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod arddangos canlyniadau o adborth cymunedol wedi ffurfio rhan o'r hunanasesiad corfforaethol yn barod.

Cafodd yr argymhellion, wedi'u diwygio, eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a'r Parch Brian Harvey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad blynyddol y Cyngor mewn perthynas â chwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystod 2020-21;

(b) Bod y Pwyllgor yn nodi perfformiad hanner blwyddyn 2022-23 y Cyngor o ran cwynion a wnaed i wasanaethau yn unol â'i weithdrefn gwynion;

(c) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r camau gweithredu ym mharagraff 1.15 i wella'r broses o ddelio â chwynion ar draws y Cyngor; a

(d) Bod y Pwyllgor yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ar gyfer yr adroddiad nesaf i arddangos sut y mae adborth cymuned yn helpu i adnabod newidiadau i wella darpariaeth gwasanaeth.

**51. STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2022/23 A DIWEDDARIAD CHWARTER 3 2021/22**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ddrafft ar gyfer 2023/24 a dogfennau cysylltiedig i'w hadolygu a'u hargymell i'r Cabinet, ynghyd â diweddariad chwarterol ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2022/23 er gwybodaeth.

Adroddodd y swyddog nad oedd newidiadau sylweddol i'r strategaeth ac fe dynnodd sylw at feysydd allweddol ar y cyd-destun economaidd, sefyllfa trysorlys ddisgwyliedig y Cyngor gyda ffocws ar fenthyca a pharhad y strategaeth fuddsoddi. Adroddwyd ar y sefyllfa o ran buddsoddiadau ym mis Rhagfyr 2022 yn y diweddariad chwarterol ar gyfer 2022/23, ynghyd â phortffolios benthyca byrdymor a hirdymor.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Allan Rainford, fe gynghorodd swyddogion er mai'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus oedd yr opsiwn benthyca o ddewis, roedd y posibilrwydd o gyflwyno Bondiau yn cael ei ystyried hefyd mewn cydweithrediad â chyngor gan Arlingclose. Cafodd ei egluro hefyd nad oedd disgwyl newidiadau pellach i strwythur y tîm wedi'i gynnwys yn yr Atodlenni Ymarfer.

Cytunodd Swyddogion i edrych ar awgrym y Parch Brian Harvey y dylai cyfeiriad at y Strategaeth Newid Hinsawdd gael ei gynnwys yn adran 1.03 o Ddatganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, yn ogystal â hynny sydd wedi'i gynnwys yn barod yn y Strategaeth.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Bernie Attridge ar gymal 3 o'r Cod Rheoli'r Trysorlys wedi'i gyfeirio ato yn y Canllaw Ymarferol i Bwyllgorau Archwilio'r Awdurdodau Lleol, cytunodd swyddogion i rannu ymateb ysgrifenedig i egluro rolau'r Pwyllgor a Cabinet i adrodd ar reoli'r trysorlys.

Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan Allan Rainford a'r Cynghorydd Bernie Attridge.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ar ôl adolygu Strategaeth ddrafft Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24, a'r dogfennau amgaeedig, nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw faterion penodol i'w hadrodd i'r Cabinet ar 23 Chwefror 2023; a

(b) Nodi'r diweddariad chwarterol ynglŷn â Rheoli'r Trysorlys yn 2022/23.

## 52. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad ar adolygiad blynyddol y Cod Llywodraethu Corfforaethol cyn i'r Pwyllgor Cyfansoddiad a Gwasanaethau Democrataidd ei ystyried ym mis Mawrth. Fe dynnodd sylw at y meysydd allweddol yn cynnwys rolau'r Gweithgor Llywodraethu Corfforaethol a'r saith egwyddor o arfer da sy'n berthnasol i'r cod.

Cynghorodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg fod newid bychan lle mae cyfeiriad at ymateb mewn argyfwng yn sgil y pandemig wedi cael ei dynnu allan.

Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a Linda Thomas.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r Cod Llywodraethu Corfforaethol fel y'i diwygiwyd i gael ei fabwysiadu fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 53. ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg yr adroddiad rheolaidd yn dangos cynnydd yn erbyn y Cynllun, adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd, olrhain camau gweithredu, dangosyddion perfformiad ac ymchwiliadau presennol. Ers yr adroddiad diwethaf nid oedd unrhyw adroddiadau Coch (sicrwydd cyfyngedig) wedi cael ei gyflwyno ac roedd 35 allan o'r 58 o gamau gweithredu hwyr o flaenoriaeth uchel neu ganolig.

Yn ôl cais gan y Cadeirydd fe ddarparodd y swyddog ddiweddariad ar y cynnydd ar gyfer y camau gweithredu o flaenoriaeth uchel hwyr gan gynnwys y rheiny oedd yn hŷn na chwe mis ers y dyddiad cydymffurfio gwreiddiol. Yn dilyn adroddiad ar drefniadau cytundebol Maes Gwern yn y cyfarfod blaenorol, rhoddwyd diweddariad positif manwl ar y sefyllfa bresennol yn cynnwys derbyniadau cyfalaf a dderbyniwyd hyd yma. Ar Drwyddedau 'O', roedd dyddiadau cydymffurfio wedi cael eu hymestyn oherwydd effaith problemau staffio yng Ngwasanaethau Stryd a Chludiant a byddai'n cael ei ddatblygu yn dilyn ymarfer recriwtio presennol. Wrth gytuno gyda'r Prif Swyddog, byddai'r tîm Archwilio Mewnol yn adnabod ffyrdd o ychwanegu gwerth i'r gwasanaeth hynny trwy adolygiad darbodus yng Nghynllun Archwilio blwyddyn nesaf.

Cytunwyd fod diweddariad ar gynnydd gyda chamau gweithredu o'r adolygiad Digartrefedd a Llety Dros Dro yn cael ei rannu unwaith y bydd ar gael, gan nodi'r pwysau presennol o fewn y gwasanaeth hynny.

Wrth ymateb i'r cwestiynau gan y Cynghorydd Andrew Parkhurst, fe eglurodd y swyddog fod gohirio'r archwiliad ar Drefniadau Adran 106 oherwydd adolygiad rheoli ac yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Archwilio 2023/24. Eglurodd y broses o annog a chefnogi swyddogion allweddol i ddiweddaru'r system ar gamau gweithredu hwyr a rhoddodd eglurhad ar y rhesymau y tu ôl i rai o'r adolygiadau yn cynnwys dyddiadau cydymffurfio wedi'u hadolygu a'u hymestyn. Ar y defnydd o ymgynghorwyr fe rannodd y cefndir ar faterion hanesyddol cyn cyflwyno prosesau wedi'u cryfhau.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Parchedig Brian Harvey a'r Cynghorydd Allan Marshall.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

## 54. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg ddiweddariad ar gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.

Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Bernie Attridge ac Andrew Parkhurst.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiad.

## 55. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol i'w hystyried.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge a'r Parch Brian Harvey.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i'r Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Risg, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 56. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Cynigwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Bernie Attridge ac Andrew Parkhurst i wahardd y wasg a'r cyhoedd.

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi’i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 a 13 o Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).

**57. DILYN I FYNY AR DREFNIADAU RHEOLI ARIANNOL YSGOL GYNRADD DRURY**

Mae’r Pwyllgor wedi derbyn adroddiad dilynol ar y cynnydd gyda chamau gweithredu yn berthnasol i argymhellion yn codi o adroddiad Archwiliad Mewnol a rannwyd ym Mai 2022.

Wrth gymeradwyo’r argymhelliad fe groesawodd y Cynghorydd Bernie Attridge y cynnydd oedd wedi cael ei wneud. Eiliwyd hynny gan Allan Rainford.

Gofynnodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor yn cael ei hysbysu pan fyddai’r cam gweithredu wedi cael ei gwblhau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y cynnydd a wnaed mewn gweithredu’r camau o’r adroddiad gwreiddiol yn cael ei nodi.

**58. AELODAU O’R CYHOEDD A’R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Dim

Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 12.40pm

……………………………………..
**Y Cadeirydd**